



26.11.20

Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.

Annwyl Riant/Gofalwr

Ynghylch: Rhaglen ar-lein yr NSPCC - Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.

Hoffwn eich hysbysu y byddwn ni'n cymryd rhan yn rhaglen ar-lein yr NSPCC - **Cofia ddweud.**

Cadwa'n ddiogel. Yn ystod yr wythnos yn cychwyn Tachwedd 30ain. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwasanaeth ar-lein. Mae **Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.** yn rhaglen ddiogelu sydd ar gael i bob ysgol gynradd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ceisio helpu plant i ddeall yr holl wahanol fathau o gam-drin ac i adnabod yr arwyddion o gam-drin a hynny mewn ffordd ryngweithiol ac addas i blant. Mae'r plant yn cael eu dysgu i siarad os oes rhywbeth yn eu poeni, unai gydag oedolion y gellir ymddiried ynddyn nhw neu gyda Childline.

Mae'r NSPCC wedi datblygu fersiwn ar-lein o'u rhaglen **Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.** er mwyn helpu i oresgyn rhai o'r heriau y mae'r pandemig Coronafeirws (COVID-19) wedi'u creu mewn perthynas â chael siaradwyr allanol mewn ysgolion. Yn y gwasanaethau ar-lein mae negeseuon **Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.** yn parhau i gael eu cyflwyno mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol gyda chymorth eu masgot Buddy ynghyd ag ymddangosiadau arbennig gan Ant a Dec.

Rydyn ni wedi astudio cynnwys y deunyddiau ac rydyn ni'n hyderus eu bod yn addas i blant ysgol gynradd. Darparwyd rhaglen ar gyfer plant blwyddyn 1 a 2, gyda rhaglen wahanol i blant blynyddoedd 3 i 6. Erbyn diwedd y rhaglen, rydyn ni'n sicr y bydd y plant yn teimlo eu bod wedi cael eu grymuso – ac yn gwybod sut gallant ddweud a chadw'n ddiogel.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am y rhaglen **Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.** ewch i wefan yr NSPCC www.nspcc.org.uk/speakout neu fe fyddwn i'n falch o drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

Gwefan o dan 12 Childline

Mae gan Childline wefan gyda chyngor addas i oedran ar gyfer plant ysgolion cynradd ar bynciau fel bwlio. Mae yno gemau ac adnoddau rhyngweithiol hefyd. Gall eich plentyn ymweld â'r wefan www.childline.org.uk/kids.

Os hoffech gael gwybod rhagor am waith yr NSPCC, neu edrych ar yr amrywiaeth o wybodaeth a chyngor sydd ar gael i rieni a gofalwyr, ewch i'w gwefan www.nspcc.org.uk/parents.

- ❖ Os ydych yn hapus i'ch plentyn gymryd rhan yn cyflwyniad gwasanaeth, does dim angen ichi wneud unrhyw beth.
- ❖ Fodd bynnag, os **nad** ydych yn dymuno i'ch plentyn gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, llofnodwch y slip isod a'i ddychwelyd i athro dosbarth eich plentyn erbyn dydd Mawrth Rhagfyr 2ail.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth

Nid wyf yn rhoi caniatâd i *(Enw'r disgybl)* _____
gymryd rhan yn y cyflwyniad ar-lein **Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.**

Llofnod:

Rhiant/Gofalwr

Dyddiad: _____



Rhaglen
Cofia ddweud.
Cadwa'n ddiogel.
NSPCC

NSPCC
Speak out. Stay safe.
programme

Yn diogelu cenedlaeth o blant rhag camdriniaeth. Dewch i wybod sut gallwn ni helpu eich ysgol chi.
Protecting a generation of children from abuse. Find out how we can help your school.